

Prifysgol Bangor: Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer Aelodau'r Cyngor a'i Bwyllgorau

1. Rhagarweiniad

Prifysgol Bangor (PB) yw'r rheolydd data mewn perthynas â'ch gwybodaeth, fel y caiff ei diffinio yn Neddf Diogelu Data 2018 ac mae wedi ymrwymo i ddiogelu eich hawliau, yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

Cynrychiolydd penodedig y brifysgol dros ddeddfwriaeth diogelu data, a'r Swyddog Diogelu Data, yw'r:

Rheolwr Cyfreithiol a Chydymffurfio
Gwasanaethau Llywodraethu
Gwasanaethau Corfforaethol
Prifysgol Bangor
Ffordd y Coleg
Bangor
Gwynedd LL57 2DG
info-compliance@bangor.ac.uk

Mae'r datganiad hwn yn egluro sut mae'r Brifysgol yn ymdrin â'ch gwybodaeth bersonol ac yn ei defnyddio fel aelod o'r Cyngor a / neu aelod o Bwyllgor Cyngor ym Mhrifysgol Bangor. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol a bod yn agored ynghylch pa wybodaeth sydd ganddi. Mae gan y Brifysgol ystod o bolisiâu a gweithdrefnau yn ymwneud â diogelu data ac maent i'w cael yma:

<https://www.bangor.ac.uk/governance-and-compliance/dataprotection/index.php.cy>

2. Pa wybodaeth ydym ni'n ei chasglu amdanoch?

Bydd Prifysgol Bangor yn casglu gwybodaeth amdanoch chi trwy ei hymwneud â chi fel aelodau o Gyngor Prifysgol Bangor. Byddwn yn cadw cofnod o'r manylion y gwnaethoch eu rhoi ar eich ffurflen gais (neu gyfatebol), a dogfennau ategol y byddwn yn gofyn amdanynt fel rhan o'r broses recriwtio a dewis, manylion ychwanegol a ddarperir gan unrhyw ganolwyr a chofnodion unrhyw broses gyfsweld, yn ogystal â gwybodaeth a gasglwyd yn ystod eich tymor fel aelod o'r Cyngor a / neu fel aelod o Bwyllgor Cyngor.

a) Holl Aelodau'r Cyngor

Mae'r mathau o wybodaeth bersonol a gasglwn yn cynnwys y canlynol, er nad yw wedi ei chyfyngu iddynt:

- eich enw a gwybodaeth gyswllt (fel cyfeiriad, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn);
- y wybodaeth sydd ei hangen ar y Comisiwn Elusennau i'ch cofrestru fel ymddiriedolwr (mae Prifysgol Bangor yn elusen gofrestrdig - rhif 1141565). Mae hyn yn cynnwys eich dyddiad geni, unrhyw enwau ychwanegol y cawsoch eich adnabod wrthynt, cenedligrwydd a'ch cyfeiriad cartref;
- os ydych yn Gyfarwyddwr un o is-gwmnïau'r Brifysgol, y wybodaeth sydd ei hangen ar Dŷ'r Cwmnïau i'ch cofrestru'n Gyfarwyddwr. Mae hyn yn cynnwys manylion eich dyddiad geni, unrhyw enwau ychwanegol y cawsoch eich adnabod wrthynt, cenedligrwydd, teitl swydd, cyfeiriad gwasanaeth (a all fod yn gyfeiriad cofrestredig y cwmni) a'ch cyfeiriad cartref;
- Eich CV (gan gynnwys eich cefndir addysgol, cymwysterau, hanes cyflogaeth, penodiadau cyhoeddus/gwirfoddol, datganiad ychwanegol i gefnogi eich cais);
- manylion bywgraffyddol a ffotograff; a
- data cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu i fonitro amrywiaeth y Cyngor. Sylwch mai dim ond ar ffurf ddiennw y cyhoeddir data o'r fath fel yn yr adroddiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Blynnyddol.

Yn ogystal, ac o bryd i'w gilydd, byddwn yn gofyn i chi lenwi:

- ffurflen “Datgan Buddiannau” yn gofyn am wybodaeth am eich diddordebau eraill sy'n berthnasol ac yn ymwneud â'r Brifysgol (yn flynyddol). Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chrynhai mewn cofrestr o fuddiannau sydd ar gael yn gyhoeddus ar wefan y Brifysgol;
- archwiliad sgiliau, i alluogi'r Brifysgol i fapio'ch sgiliau a'ch profiad yn erbyn yr ehangder o arbenigedd sydd ei angen ar y Cyngor gan ei aelodaeth;
- ffurflen monitro cydraddoldeb, yn gofyn am fanylion yn ymwneud â'r nodweddion gwarchoddedig a gwmpesir gan ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus; ac
- unrhyw wybodaeth arall sy'n ofynnol gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) (yn flynyddol). Mae hyn fel arfer yn cynnwys:
 - oedran
 - dyddiad geni
 - rhyw
 - ailbennu rhywedd*
 - ethnigrwydd*
 - anabledd*
 - cred grefyddol*
 - bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil
 - bod yn feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth
 - cyfeiriadedd rhywiol
 - eich cymhwysr uchaf

**Mae'r wybodaeth hon yn wirfoddol*

b) Gwybodaeth Ychwanegol am Aelodau o Staff

Yn ogystal â'r wybodaeth a amlinellir yn adran a) uchod byddwn hefyd yn casglu'r wybodaeth ganlynol am aelodau staff sy'n aelodau o'r Cyngor:

- eich Coleg / Ysgol neu Wasanaeth Proffesiynol;
- eich datganiad i'r grŵp staff perthnasol ar adeg eich etholiad;
- manylion a chanlyniadau'r bleidlais.

c) Aelodau Cyfetholedig o Is-bwyllgorau'r Cyngor nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor

Os ydych yn aelod o un o Is-bwyllgorau'r Cyngor, ond ddim yn aelod o'r Cyngor byddwn yn casglu'r wybodaeth ganlynol amdanoch:

- eich enw a gwybodaeth gyswllt (fel cyfeiriad, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn);
- Eich CV (gan gynnwys eich cefndir addysgol, cymwysterau, hanes cyflogaeth, penodiadau cyhoeddus/gwirfoddol, datganiad ychwanegol i gefnogi eich cais);
- manylion bywgraffyddol a ffotograff; a
- byddwn yn gofyn i chi o bryd i'w gilydd i lenwi ffurflen “Datgan Buddiannau” yn gofyn am wybodaeth am eich diddordebau eraill sy'n berthnasol ac yn ymwneud â'r Brifysgol (yn flynyddol). Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chrynhai mewn cofrestr o fuddiannau sydd ar gael yn gyhoeddus ar wefan y Brifysgol.

d) Gwybodaeth ychwanegol

Yn ogystal â'r uchod, gellir casglu'r data ychwanegol canlynol yn ystod eich cyfnod yn y swydd er mwyn hwyluso eich presenoldeb mewn cyfarfodydd, i dalu eich treuliau, a / neu i'ch gwahodd i ddigwyddiadau ac achlysuron:

- Manylion cyfrif banc
- Rhif cofrestru car
- Enw partner
- Gofynion dietegol
- Manylion cyswllt ychwanegol
- Gohebiaeth
- Presenoldeb mewn cyfarfodydd
- Gofynion addasiad rhesymol*

**Mae'r wybodaeth hon yn wirfoddol*

3. Sut caiff eich gwybodaeth ei defnyddio?

Nid yw'n bosibl nodi pob diben y bydd PB yn defnyddio eich gwybodaeth ar ei gyfer ond, yn y rhan fwyaf o achosion, mae eich gwybodaeth bersonol naill ai'n angenrheidiol i ni oherwydd eich bod yn Ymddiriedolwr neu'n angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol e.e. Deddf Cydraddoldeb 2010, Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2011 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch.

a) Holl Aelodau'r Cyngor

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o sut mae gwybodaeth yn debygol o gael ei defnyddio:

- I gofrestru fel Ymddiriedolwr gyda'r Comisiwn Elusennau. Bydd rhai manylion ar gael yn gyhoeddus i'r rhai sy'n chwilio am wybodaeth Ymddiriedolwyr, ac i sicrhau nad yw llywodraethwyr wedi'u hanghymhwyso fel ymddiriedolwr elusen yn unol â Deddf Elusennau 2006;
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, a chyrrff ac adrannau eraill y llywodraeth sy'n gyfrifol am gyllid cyhoeddus, dadansoddi ystadegol, monitro ac archwilio, contractau, a chynigion cyllid;
- Cyflwyno data i'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch yn flynyddol i ganiatáu ar gyfer monitro nodweddion cydraddoldeb;
- Cydymffurfio â'r broses *Adnabod eich Cleient* (KYC) ar gyfer cwmnïau ariannol. Mae proses KYC yn cynnwys cwmnïau yn gwirio hunaniaeth eu cleientiaid yn unol â gofynion cyfreithiol a chyfreithiau a rheoliadau cyfredol, a gall hyn gynnwys cais am ddata sy'n ymwneud ag Ymddiriedolwyr;
- Er mwyn eich galluogi i gyrchu rhannau o wefan y Brifysgol sydd wedi'u diogelu gan gyfrinair, ac i ddefnyddio cyfeiriad e-bost prifysgol os dymunwch;
- Ar gyfer cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau i lywodraethwyr sydd hefyd yn gyfarwyddwyr is-gwmnïau'r Brifysgol; ac
- Ar gyfer anfon gwybodaeth atoch mewn perthynas â'ch aelodaeth o'r Cyngor. Bydd y wybodaeth ar gael i aelodau'r Pwyllgor Gwaith, uwch staff eraill a staff yn y Gwasanaethau Llywodraethu);
- Efallai y bydd yn ofynnol hefyd er mwyn i ni gyflawni tasgau sydd eu hangen er lles y cyhoedd

b) Aelodaeth o'r Cyngor a'i Is-Bwyllgorau

Yn ogystal, ac er mwyn hwyluso eich aelodaeth o'r Cyngor a'i Is-bwyllgorau, bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio yn y ffyrdd canlynol:

- ar gyfer recriwtio a dethol aelodau newydd o'r Cyngor, ac Is-bwyllgorau'r Cyngor gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu;
- i anfon dogfennau ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor a'i Is-bwyllgorau;
- i'w cynnwys yng nghofnodion y Cyngor a'i Is-bwyllgorau;
- i hwyluso cyswllt rheolaidd drwy e-bost yn ymwneud â busnes y Cyngor a'r brifysgol;
- i anfon gwahoddiadau i ddigwyddiadau prifysgol;
- ar gyfer monitro a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010;
- darparu manylion eich aelodaeth o'r Cyngor a'i Is-Bwyllgorau trwy wefan y Brifysgol gan gynnwys yng nghynllun cyhoeddi'r Brifysgol sy'n ofynnol o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000;
- ar gyfer gofynion adrodd, gan gynnwys yn y gofrestr buddiannau, yr adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol, a chyhoeddiadau'r brifysgol;
- ar gyfer yswirwyr y Brifysgol;
- ar gyfer archwilwyr mewnol ac allanol y Brifysgol;
- ar gyfer cynrychiolwyr cyfreithiol y Brifysgol; ac
- ar gyfer gwestai a lleoliadau allanol at ddibenion archebu llety a digwyddiadau, gofynion dietegol a mynediad.

4. Pwy sy'n derbyn y wybodaeth amdanoch?

Mae gan y tîm Gwasanaethau Llywodraethu fynediad i'ch data personol a chategori arbennig ac maent yn gyfrifol am gynnal eich ffeil a'ch cofnodion personol. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich data personol, cysylltwch ag Ysgrifennydd y Cyngor yn y lle cyntaf.

Mae'r adran hon yn amlinellu'r prif sefydliadau a'r amgylchiadau mwyaf cyffredin pan mae'r Brifysgol yn datgelu gwybodaeth ynglŷn ag aelodau o'r Cyngor. Lle mae hynny'n cynnwys trosglwyddiad rhyngwladol, trosglwyddir gwybodaeth yn unig os yw'n bodloni'r amodau a amlinellir yn Neddf Diogelu Data 2018.

- **Staff y Brifysgol** Lle mae angen y wybodaeth at ddibenion gweinyddol. Yn achos ymgeiswyr am aelodaeth staff ar y Cyngor, bydd y datganiad i'r etholwyr yn cael ei rannu â holl staff perthnasol y Brifysgol.
- **Contractwyr a chyflenwyr.** Lle mae'r Brifysgol yn defnyddio gwasanaethau allanol neu wedi rhoi gwaith ar gontract allanol sy'n cynnwys prosesu data personol aelodau'r Cyngor ar ein rhan. Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod contractau, telerau ac amodau a/neu gytundebau rhannu data priodol yn eu lle a bod y contractwyr a'r cyflenwyr yn prosesu data personol yn unol â'r GDPR a deddfwriaeth berthnasol arall.
- **Cyrff y llywodraeth ac adrannau yn y DU a'r Ardaloedd Economaidd Ewropeaidd (AEE).** At ddibenion arian cyhoeddus, ceisiadau am arian, dadansoddi ystadegol, monitro ac archwilio, nawdd, a materion rheoleiddio.
- **Gwestai a lleoliadau allanol.** At ddibenion archebu digwyddiadau, llety, gofynion diet a mynediad.
- **Sefydliadau ariannol a Banciau sydd â pherthynas â'r Brifysgol.**
- **Y Comisiwn Elusennau.**
- **Tŷ'r Cwmnïau.** Byddai hyn ar gyfer aelodau'r Cyngor sydd hefyd yn gyfarwyddwyr un o is-gwmnïau'r Brifysgol.
- **Yswirwyr, cynghorwyr cyfreithiol ac archwilwyr y Brifysgol.**
- Y rhai sy'n gofyn am wybodaeth am **ddatganiadau o fuddiannau** gan aelodau'r Cyngor. Mae'r gofrestr buddiannau ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Brifysgol.

5. Gwybodaeth bellach yn ymwneud â'ch data

a) Eich hawliau

Mae gennych hawl i fynediad at eich gwybodaeth bersonol, gwrthwynebu prosesu eich gwybodaeth bersonol, unioni, dileu, cyfyngu a throsglwyddo'ch gwybodaeth bersonol. Os ydych wedi cydsynio i'r

Brifysgol brosesu unrhyw ran o'ch data, yna mae gennych hawl hefyd i dynnu'r cydsyniad hwnnw'n ôl. Sylwch, fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau gallai hyn olygu na fydddech yn gallu parhau fel Aelod o'r Cyngor. Ewch i we-dudalennau Diogelu Data'r Brifysgol i gael gwybodaeth bellach am eich hawliau:

<https://www.bangor.ac.uk/governance-and-compliance/dataprotection/index.php.cy>

Dylai unrhyw geisiadau neu wrthwynebiadau gael eu hanfon yn ysgrifenedig at Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol.

Diogelwch

Mae deddfwriaeth diogelu data yn ei gwneud yn ofynnol i ni gadw'ch gwybodaeth yn ddiogel. Mae hynny'n golygu y caiff eich cyfrinachedd ei barchu, a chymerir pob cam priodol i atal mynediad a datgelu gwybodaeth heb awdurdod. Dim ond aelodau staff sydd angen mynd at rannau perthnasol eich gwybodaeth, neu eich holl wybodaeth, fydd yn cael eu hawdurdodi i wneud hynny. Bydd angen cyfrinair a chyfyngiadau diogelwch eraill i gael mynediad at wybodaeth amdanoch mewn ffurf electronig, a chaiff ffeiliau papur eu cadw mewn manau diogel gyda mynediad atynt wedi'i reoli. Mae gwybodaeth bellach am y prosesau hyn i'w chael ym *Mholisi Diogelwch Gwybodaeth* y Brifysgol.

<https://www.bangor.ac.uk/governance-and-compliance/policy-register/documents/information-security-policy.pdf>

Dal Gafael ar Ddata

Mae'r brifysgol yn cadw'r wybodaeth amdanoch yn unol ag amserlenni penodedig addysg uwch ar gadw gwybodaeth. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn amserlen cadw gwybodaeth y Brifysgol y gellir ei gweld yma:

<https://www.bangor.ac.uk/governance-and-compliance/records-management.php.cy>

Cwynion

Os ydych yn anhapus â'r ffordd y proseswyd eich gwybodaeth bersonol gallwch, yn y lle cyntaf, gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Os byddwch yn dal yn anfodlon mae gennych hawl i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Y Comisiynydd Gwybodaeth 2il Lawr
Tŷ Churchill, Ffordd Churchill
Caerdydd
CF10 2HH
Ffôn: 02920 678 400

Eich cyfrifoldebau

Mae gennych gyfrifoldeb i ddiweddarau eich manylion personol. Yn ystod eich tymor ar y Cyngor gallwch weld gwybodaeth bersonol am eraill mewn nifer o amgylchiadau, naill ai yn y Brifysgol neu yn rhywle arall. Disgwylir i chi drin hyn mewn modd cyfrifol a phroffesiynol ac mae'n ofynnol yn gyfreithiol i chi wneud hyn dan ddeddfwriaeth diogelu data, yn ogystal ag unrhyw foeseg broffesiynol, codau ymddygiad neu reolau a rheoliadau lleol. Os ydych chi'n cael gwybodaeth bersonol yn gyfrinachol, disgwylir i chi beidio â datgelu'r wybodaeth hon i unrhyw un heb gydsyniad yr unigolyn hwnnw, oni bai fod amgylchiadau eithriadol. Ni ddylech chwaith geisio cael data personol pobl eraill os nad oes gennych hawl iddo. Gall aelodaeth unrhyw Ymddiriedolwr sy'n torri deddfwriaeth diogelu data neu ddyletswydd cyfrinachedd gael eu haelodaeth o'r Cyngor wedi'i dynnu yn ôl.

Edrychwch ar *Bolisi Diogelu Data* y Brifysgol am wybodaeth bellach.

<https://www.bangor.ac.uk/governance-and-compliance/dataprotection/documents/Data%20Protection%20Policy%20approved%20v7.1%20July%202021.pdf>